This publication was archived on 24-Dec-2021

This publication is no longer current and is not being updated.

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

HM Government

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol

Canllaw cam wrth gam i baratoi eich grŵp cymunedol i groesawu teulu o ffoaduriaid

Archived

SOCIAL FINANCE

Good Faith Partnership

REFUGEE ACTION

CHURCH RESPONSE FOR REFUGEES

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol

Cyflwyniad

Nod: Dod yn gefnogwr a rhoi cefnogaeth i deulu o ffoaduriaid

Mae dod yn gefnogwr i deulu o ffoaduriaid yn gyfrifoldeb mawr, ond mae hefyd yn rhoi cymaint o foddhad! Er y gallai ymddangos yn frawychus, mae'r broses yn un y gellir ei chyflawni yn iawn. Dim ond ychydig o ddewrder, ymdrech ac ewyllys da sydd arnoch eu hangen.

Mae'r canllaw hwn yma i'ch helpu chi baratoi.
Bydd angen i'ch grŵp ddangos y gallwch fodloni rhai meini prawf cyn y gallwch groesawu teulu. Mae pob adran o'r canllaw hwn yn cyfateb i un o'r meini prawf hyn, yn esbonio pam ei fod yn werthfawr, ac yn rhoi strategaethau ac adnoddau defnyddiol os byddwch yn mynd i drafferth. Defnyddiwch gymaint neu cyn lleied o'r canllaw ag y bydd arnoch ei angen.

Peidiwch ag anghofio, nid ydych ar eich pen eich hun!
Mae cefnogi yn ymdrech gan y gymuned gyfan. Recriwtiwch aelodau o'r gymuned a lluniwch bartneriaeth â grwpiau lleol i greu rhwydwaith gefnogol a chroesawus i deulu. Rydym hefyd ar gael i ateb cwestiynau os bydd arnoch angen ychydig o help. Rhoddir rhestr o gysylltiadau fydd o help ar gefn y canllaw hwn.

Meini Prawf

✓ Statws y Sefydliad 3
Mae eich grŵp yn elusen gofrestredig neu gwmni budd cymunedol (CIC) neu wedi llunio partneriaeth ag un.

✓ Profiad 3
Mae gan eich cefnogwr arweiniol, personél cefnogi, a/neu sefydliadau partner brofiad perthnasol yn cefnogi ffoaduriaid neu grwpiau eraill o bobl fregus.

✓ Ymrwymiad Ariannol 5
Mae eich grŵp wedi meddwl yn ofalus beth fydd hi'n ei gostio i gefnogi teulu sydd wedi ei adsefydlu a neilltuo o leiaf £9,000 (£4,500 i bob oedolyn), gyda thystiolaeth llythyr (a chyfriflen banc os bydd angen) gan eich prif swyddog ariannol.

✓ Tai 7
Mae eich grŵp wedi canfod llety am leiafswm o ddwy flynedd ac wedi cael cymeradwyaeth i hyn gan yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol. *Gall y Swyddfa Gartref dderbyn cais cyn i'r trefniadau cartrefu gael eu cytuno yn derfynol, ond dim ond ar ôl i'r tŷ gael ei sicrhau y gall ei gymeradwyo yn derfynol.*

✓ ESOL a Chyfieithwyr 9
Dosbarthiadau Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) neu athro wedi eu trefnu am leiafswm o 10 awr yr wythnos i bob oedolyn am y 12 wythnos cyntaf, ac yna lleiafswm o 5 awr yr wythnos. Cyfieithwyr ar gael am 12 mis yn ôl y gofyn.

✓ Diogelu 11
Mae gan eich grŵp bolisi diogelu cryno, hawdd ei ddeall a rhwydwaith o gysylltiadau sy'n sicrhau bod plant ac oedolion bregus yn cael eu diogelu.

✓ Cynllun Adsefydlu 13
Mae eich grŵp wedi cwblhau cynllun adsefydlu trylwyr sy'n esbonio sut y byddwch yn cyflawni gwasanaethau ar gyfer integreiddio a chefnogi.

✓ Caniatâd Awdurdod Lleol 15
Mae eich grŵp wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol eu bod yn rhoi caniatâd i gymeradwyo eich cais.

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Camau Paratoi Cefnogaeth Gymunedol:

Mae'r siart isod yn rhoi syniad o'r drefn y gallech gwblhau eich cais.

Mae pob grŵp yn dechrau ei daith gefnogi gyda lefel wahanol o brofiad, felly mae'n anodd amcangyfrif pa mor hir y bydd hi'n ei gymryd i gwblhau'r broses ymgeisio. Ar sail profiadau ar hyn o bryd, mae wedi cymryd tua 6 mis i grwpiau o ffurfio i gael penderfyniad ar eu cais. Gall y sefydliadau a restrir ar gefn y canllaw hwn eich cefnogi i ddatblygu eich cais. Yn dilyn cymeradwyo cais bydd y Swyddfa Gartref yn cytuno ar amserlen realistig i'r teulu gyrraedd y cefnogwr cymunedol. Y nod, bob amser, fydd adsefydlu'r teulu mor gyflym â phosibl ond mae nifer o ffactorau sy'n cael dylanwad ar y broses i ganfod, cyfateb ac adsefydlu teulu addas.



- **Rhestr Wirio Cais:** Pan fyddwch yn barod, bydd arnoch angen **cyflwyno cais wedi ei lenwi i** communitysponsorship@homeoffice.gsi.gov.uk **gyda'r canlynol wedi eu hatodi:**

  - ❑ Llythyr gan brif swyddog ariannol (neu gyfatebol) eich sefydliad a thystiolaeth ychwanegol o arian yn ôl y gofyn
  - ❑ Dogfennau yn nodi addasrwydd y llety+
  - ❑ Polisi diogelu
  - ❑ Cynllun adsefydlu *(gan gynnwys cyllideb a rhestr o sefydliadau/ unigolion sy'n rhoi cefnogaeth)*
  - ❑ Llythyr caniatâd gan yr awdurdod lleol priodol

  +Llythyr gan dîm tai sector preifat yr awdurdod lleol yn cadarnhau eu bod wedi archwilio'r eiddo, ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a chadarnhad gan yr heddlu nad oes ganddynt bryderon bod y cartref yn cael ei ddefnyddio ar gyfer teulu wedi ei adsefydlu

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol

Sefydliad a Phrofiad

Nod: Paratowch eich grŵp i ddod yn gefnogwr

Mae cefnogaeth gymunedol yn wirfoddol ac ar agor i bob grŵp, **gan gynnwys elusennau, grwpiau ffydd, a busnesau.** Mae adsefydlu teulu yn gyfrifoldeb sylweddol felly rhaid i'ch grŵp ddangos bod ganddo strwythur priodol a phrofiad perthnasol yn cefnogi pobl fregus fel ceiswyr lloches neu'r digartref. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych hyn, gallwch lunio partneriaeth gyda sefydliadau ac unigolion yn eich cymuned sydd â phrofiad (e.e. cyllid, addysg, gofal iechyd) a'u dwyn at ei gilydd i gefnogi teuluoedd sydd wedi adsefydlu.

Er mwyn bodloni'r meini prawf sefydliad a phrofiad, bydd ar eich sefydliad *neu ei bartneriaid* angen:

- ❑ Statws Elusen neu Gwmni Budd Cymunedol
- ❑ Cefnogwr arweiniol
- ❑ Personél cefnogi
- ❑ Profiad yn cefnogi pobl fregus

"Aeth llawer o ymdrech i'r gwaith [o ddod yn elusen] am y 6 mis cyntaf yna, ond flwyddyn yn ddiweddarach, mae CHARIS yn sicr yn gweld y manteision."

CHARIS

Cyrraedd y meini prawf

✓ **Statws elusen neu gwmni budd cyhoeddus gennych.**
Os nad oes gan eich sefydliad statws elusen neu gwmni budd cyhoeddus, ystyriwch y dewisiadau canlynol:

- **Llunio partneriaeth gydag elusen neu gwmni budd cymunedol sy'n bodoli.** Rhaid i'r partner fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb llawn am y trefniant cefnogi a sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir gyda'ch sefydliad;
- **Creu elusen newydd;**
- **Creu cwmni budd cymunedol newydd.** Menter gymdeithasol yw cwmni budd cymunedol sydd eisiau defnyddio ei elw a'i asedau er budd y cyhoedd. Bwriedir i gwmniau budd cymunedol fod yn hawdd eu sefydlu, gyda'r holl hyblygrwydd a sicrwydd o fod ar ffurf cwmni, ond gyda rhai nodweddion arbennig i sicrhau eu bod yn gweithio er budd y gymuned.

✓ **Nodwch y prif gefnogwr i fod yn gyfrifol am y trefniant cefnogi.**
Yn nodweddiadol mae'r cefnogwr arweiniol yn aelod uwch o'ch sefydliad, h.y. aelod o fwrdd yr elusen neu gwmni budd cymunedol, Prif Weithredwr, neu gyfatebol.

✓ **Nodwch y personél cefnogi a'u rolau yn y trefniant cefnogi.**

✓ **Dangoswch bod gan eich grŵp neu eich partneriaid brofiad o gefnogi pobl fregus.**
Gall profiad blaenorol perthnasol gynnwys:

- Adsefydlu ffoaduriaid trwy eich awdurdod lleol;
- Gweithio gyda cheiswyr lloches neu'r digartref;
- Cefnogi dioddefwyr masnachu mewn pobl neu drais domestig.

✓ **Datblygu partneriaethau i lenwi bylchau o ran profiad a rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i deulu.**
Does dim rhaid i chi wneud hyn ar eich pen eich hun! Mae cefnogi yn ymdrech gan y gymuned gyfan. Gofynnwch am help gan grwpiau yn eich cymuned all fod â phrofiad o gefnogi pobl fregus. **Gall sefydliadau ffoaduriaid, grwpiau crefyddol, ysgolion, timau cymunedau diogelach yr heddlu lleol a'ch awdurdod lleol hefyd fedru darparu cefnogaeth ychwanegol.** Yn yr un modd â phob partneriaeth, gwnewch yn siŵr bod gan bob aelod ddealltwriaeth glir o'u rolau, cyfrifoldebau, a'u hatebolrwydd.

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

"Ar y dechrau cynigiwyd y cyfle i ni gael ein dwyn dan ymbarél elusen oedd yn bodoli yn barod. Yn y pen draw fe wnaethom benderfynu dod yn elusen ein hunain a wnaeth symleiddio popeth ac sydd â'r bonws ychwanegol o fod yn gallu ychwanegu rhodd-cymorth at gyfraniadau. Roedd y Comisiwn Elusennau yn barod iawn i helpu. Rhyw 8 wythnos gymrodd y broses i gyd."

Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid Bude ar Ddod yn Elusen

"Daeth CHARIS yn elusen eu hunain yn hytrach na gweithio dan sefydliad ymbarél arall, gan ei alluogi i lunio sylfaen a seilwaith cynaliadwy i gefnogi adsefydlu teuluoedd o ffoaduriaid...Er mwyn gweithio ar hyn sefydlodd CHARIS fwrdd o Ymddiriedolwyr a thîm rheoli a gweithio yn drefnus trwy'r holl ofynion oedd eu hangen i sefydlu elusen. Defnyddiodd CHARIS arbenigwyr a phrofiad o'r rhai yn ei sefydliad ei hun ac ymhlith y cefnogwyr sydd wedi gweithio ar fyrddau Elusennau ac mewn sefydliadau elusennol o'r blaen i helpu i fynd trwy rai o'r tasgau heriol. Roedd y Comisiwn Elusennau hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o ran gwybodaeth a chyngor. Fe gymerodd y gwaith gyfanswm o tua 6 mis ac fe wnaed hyn cyn i CHARIS ddechrau gweithio o ddifrif ar eu cais cefnogi.

Manteision y broses hon oedd bod gan CHARIS yn awr fodel llywodraethu a sefydliadol cadarn sy'n gweithio, yr holl bolisïau a phrosesau sydd arno eu hangen i weithio a strwythur a all gyflawni'r cynlluniau adsefydlu yn effeithiol, yn ogystal â chodi arian a chanfod cefnogwyr newydd."

CHARIS ar Ddod yn Elusen

"Fel grŵp o eglwysi yn Worthing roedd gennym bartneriaeth yn barod â'r sector wirfoddol, llywodraeth leol a busnesau yn lleol. Felly fe wnaethom alw cyfarfodydd gyda'r grwpiau yr oeddem eisoes yn gwybod amdanynt i amlinellu ein cynlluniau a gwahodd pobl i gynnig eu cefnogaeth. Yna trefnwyd lansiad cyhoeddus pan wahoddwyd pobl i gynnig cefnogaeth. Roedd y cynigion o gefnogaeth a ddilynodd yn llenwi'r bylchau nad oeddem wedi gallu eu llenwi ein hunain a wnaeth ein galluogi i gwblhau'r cais Cefnogaeth Gymunedol."

Adnoddau

- Mae gwybodaeth ar sut i sefydlu a chofrestru elusen yn: **www.gov.uk/setting-up-charity/register-your-charity**.
- Mae gwybodaeth ar sut i sefydlu a chofrestru cwmni budd cymunedol yn: **www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-regulator-of-community-interest-companies**

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol

Ymrwymiad Ariannol

Nod: Dangos adnoddau ariannol

Bydd y teulu sydd wedi adsefydlu yn derbyn budd-daliadau gan y wladwriaeth (*cânt weithio os byddant yn gallu),* ond mae angen i'ch grŵp gael **digon o adnoddau ariannol** i helpu eich teulu i ymsefydlu. Gall hyn gynnwys eitemau fel gwasanaethau cyfieithu, cludiant cyhoeddus, dodrefn, £200 i bob aelod o'r teulu wrth iddynt gyrraedd, cyllid dros dro tra bydd hawliadau budd-daliadau yn cael eu prosesu ac unrhyw arian ychwanegol a all fod yn ofynnol i fodloni gwariant nad yw'n cael ei gynnwys gan y budd-daliadau y bydd eich teulu yn eu derbyn.

Er mwyn bodloni'r meini prawf ariannol, bydd ar eich grŵp angen:

- ❑ Cyllideb
- ❑ O leiaf £9,000*
- ❑ Tystiolaeth gan eich prif swyddog ariannol bod £9,000 wedi ei neilltuo ar gyfer cefnogi.

**Mae'r gofyn £9,000 ar gyfer teulu nodweddiadol 2 oedolyn ac mae ar sail £4,500 yr oedolyn. Ni weithredir ffigwr ar gyfer plant oherwydd byddant yn derbyn y rhan fwyaf o'u cefnogaeth trwy'r system addysg. Nid yw'r Swyddfa Gartref yn mynnu eich bod yn gwario'r swm hwn. Ond mae'n ei sicrhau bod gan eich grŵp ddigon o arian i ymateb i unrhyw anghenion sy'n codi ar unwaith.*

"Agwedd allweddol o godi arian yw rhannu'r weledigaeth o ran yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud...Bydd y newyddion yn cael ei drosglwyddo wedyn ar lafar a bydd y cyfraniadau yn dechrau cyrraedd."

Cyrraedd y Meini Prawf

- ✓ **Pennu faint y bydd y gefnogaeth yn ei gostio yn eich cymuned.**
  Amcangyfrifwch faint o arian fydd yn angenrheidiol i gefnogi teulu yn eich cymuned a chanolbwyntio ar gyflawni'r targed. Peidiwch â rhoi gormod o bwyslais ar y £9,000; er y bydd arnoch angen bod â'r arian hwn ar gael, gan ddibynnu ar amgylchiadau eich cefnogaeth, efallai y bydd angen i chi wario mwy neu lai na hyn. Dylech amcangyfrif lefel y budd-daliadau y bydd eich teulu yn ei gael: efallai y bydd eich Canolfan Waith yn gallu eich cynorthwyo gyda hyn.

- ✓ **Paratowch gyllideb gychwynnol.**
  Dechreuwch trwy bennu amcangyfrif o gost i bob adran o'ch cynllun adsefydlu a dangos sut y bydd eich grŵp yn talu am bob cost. Gall rhai elfennau gael eu darparu am ddim cost i'ch grŵp trwy wasanaethau cyhoeddus, gwirfoddolwyr, neu roddion, tra gall eraill gael eu cynnwys yn incwm y teulu trwy fudd-daliadau. Adolygwch wrth dderbyn rhagor o wybodaeth a chadw cofnod o'r cyllid sydd ar gael a'r gwariant posibl.

- ✓ **Codwch arian.**
  Cynllun dan arweiniad y gymuned yw cefnogi cymunedol, felly apeliwch at eich cymuned am gefnogaeth i gasglu arian. Dechreuwch trwy roi gwybod i'r gymuned beth yr ydych yn ei gynllunio a pham ei fod yn bwysig. Gosodwch darged a llunio cynllun i'w gyflawni. Yn y gorffennol mae cefnogwyr cymunedol wedi defnyddio cymysgedd o apeliadau am roddion elusennol, gweithgareddau codi arian a nawdd gan fusnesau lleol.

- ✓ **Darparwch dystiolaeth gan eich prif swyddog ariannol yn neilltuo £9,000 ar gyfer cefnogi**.
  Os yw incwm blynyddol nodweddiadol eich sefydliad yn llai na £100,000, dylech hefyd roi tystiolaeth o'r cyllid ar **ffurf cyfriflen banc.**

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

"Rydym wedi cynnal casgliadau ar y stryd, gwerthu cacennau mewn gwyliau, wedi bod yn canu carolau, gwneud gweithiau celf ar y traeth yn ystod wythnos ffoaduriaid fis Mehefin diwethaf ac wedi rhoi sgyrsiau i grwpiau lleol. Pan oedden ni'n hyderus bod gennym ddigon o gefnogaeth leol fe lansiwyd ein 'bargen gefnogaeth'. Fe wnaethom ni ofyn i bobl ein helpu i ddod â dau deulu i gael eu hadsefydlu yma yn Bude trwy addo dim ond £5 y mis am 20 mis, (£100 i gyd). Trwy gael 300 o bobl i ymuno gallem godi £30,000. Fe wnaethom ysgrifennu at eglwysi, grwpiau a busnesau lleol a gofyn iddynt gyfrannu. Rydym wedi cael ein synnu gan y gefnogaeth - gan i ni godi 2/3 o'r arian mewn 4 mis."

Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid Bude ar Godi Arian

"Rydym wedi gofyn i eglwysi lleol dderbyn casgliadau at y prosiect. Rydym wedi ymgeisio am grant lleol oedd yn gysylltiad y gwyddem amdano; ac ar hyn o bryd rydym yn ymgeisio am grant lleol arall sydd yn gysylltiad y gwyddem amdano. Mae rhwydweithio wedi bod yn allweddol i ni."

Worthing4Refugees ar Godi Arian

"Unwaith yr oedden ni'n hyderus ein bod yn debygol o gael caniatâd, fe wnaethon ni ddechrau codi arian o ddifrif i dalu am gostau adsefydlu teuluoedd: hyd yn hyn mae £8000+ wedi cael ei roi gan ein cymuned, ac mae llu o gynigion am nwyddau a gwasanaethau am ddim - digon, rydym yn amcangyfrif, i dalu am y teulu cyntaf a mwy na hynny efallai."

Abergwaun ar Godi Arian

Adnoddau

Isod mae **Templed Cyllideb,** sy'n rhoi enghraifft o sut y gallech ddechrau cyfrifo'r ymrwymiad ariannol sy'n angenrheidiol i gefnogi teulu wedi ei adsefydlu. Cofiwch bod raid i chi ddangos bod gennych £9,000 ar gael, ond efallai na fydd raid i chi wario hwn i gyd – bydd llunio cyllideb yn eich helpu i benderfynu beth fydd arnoch ei angen.

Anghenion Adsefydlu	Cefnogaeth Ariannol?	Swm (£)	Cyfraniad Mewn Da?	Swm (£)
Costau Cychwynnol				
Dillad	☐		☐	
Dodrefn	☐		☐	
Eitemau i'r Tŷ	☐		☐	
Costau dechrau yn yr ysgol	☐		☐	
Bwydydd sylfaenol	☐		☐	
Costau cartref (blaendal rhent, ffôn, cyfleustodau)	☐		☐	
Costau parhaus				
Llety Ffordd diadwy a Chynaliadwy	☐		☐	
Trafnidiaeth	☐		☐	
Darpariaeth Saesneg	☐		☐	
Cyfieithwyr	☐		☐	
Gofal plant	☐		☐	
Cyfansymiau				

Os yw eich grŵp yn bwriadu codi arian, cyfeiriwch at god ymarfer y rheoleiddiwr codi arian yn:
https://www.fundraisingregulator.org.uk/code-of-fundraising-practice/code-of-fundraising-practice/

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol: T*ai*

Nod: Canfod tai addas i deulu o ffoaduriaid

Rhaid i'ch grŵp ddarparu cartref digonol, diogel a sicr am ddwy flynedd. Gall dod o hyd i dai gymryd amser, felly mae'n well dechrau'n gynnar. Estynnwch allan at eich sefydliadau partner, awdurdod lleol, a rhwydwaith cefnogi i ystyried dewisiadau tai yn eich cymuned.

Er mwyn bodloni'r meini prawf tai, bydd ar gartref addas angen:

- ❑ Prydles am ddwy flynedd o leiaf
- ❑ Ei ddrws ffrynt ei hun
- ❑ Rhent sy'n fforddiadwy a chynaliadwy, o ystyried y budd-daliadau y bydd eich teulu yn eu derbyn ac unrhyw gap budd-daliadau fydd yn berthnasol
- ❑ Cynnal a chadw priodol
- ❑ Dodrefn a chyfleusterau

**Yn ddelfrydol, byddai lle yn y cartref ar gyfer teulu mawr a dylai fod yn hygyrch i'r rhai sydd â phroblemau symudedd (neu y gellid ei addasu ar eu cyfer).*

"Fe wnaethom ddefnyddio ein rhwydwaith... yn y diwedd cynigiwyd 3 eiddo i ni."

Cyrraedd y Meini Prawf

CHARIS

✓ **Dod o hyd i gartref a sicrhau prydles am 2 flynedd o leiaf.** Fe allech chi:

- **Gysylltu â landlordiaid preifat trwy fforymau landlordiaid lleol neu eich rhwydwaith** Byddwch yn barod i ymdrin â phryderon landlord ac ateb cwestiynau am gefnogaeth gymunedol. Ystyriwch weithredu fel gwarantydd neu roi ymrwymiad rhag ofn y bydd unrhyw ddifrod.
- **Apeliwch at Gymdeithasau Tai lleol.**
- **Gofynnwch i asiantau gosod rannu'r cais neu gysylltu â landlordiaid ar eu llyfrau.**
- **Gweithiwch gyda phartneriaid cymunedol.** Gall ysgolion, eglwysi, mosgiau ac ati fod ag eiddo neu wirfoddolwyr sy'n barod i helpu.

✓ **Gwnewch yn siŵr bod y rhent yn fforddiadwy ar sail y budd-daliadau y bydd eich teulu yn eu derbyn ar hyd y brydles neu fod gan eich grŵp y gallu ariannol i dalu'r costau ychwanegol.**
Eich awdurdod lleol sy'n talu budd-dal tai i deulu wedi adsefydlu, a all fod yn wahanol i ardaloedd gwahanol ac i feintiau gwahanol o deuluoedd.

Mae cyfyngiad cyffredinol ar y swm o fudd-dal y gall y rhan fwyaf o bobl ei gael ac efallai y bydd angen i chi hefyd ystyried y cap hwn ar fudd-daliadau a fforddiadwyedd y llety yn y dyfodol.

✓ **Gwnewch yn siŵr bod y cartref yn cael ei ddodrefnu â'r canlynol o leiaf:**

- Y nifer a'r math addas o welyau
- Toiled, basn ymolchi a bath neu gawod wedi eu gosod gyda dŵr poeth ac oer
- Offer gwresogi sefydlog ym mhob ystafell, a all wresogi yn effeithiol ac y gall y tenant ei reoli
- Cyfleusterau coginio ac ar gyfer paratoi a storio bwyd yn lanwaith (er enghraifft, hob 4 cylch gyda phopty a gril, rhew-oergell, popty microdon, a sinc yn gegin)
- Mynediad at gyfleusterau golchi dillad (e.e. peiriant golchi neu olchdy gerllaw)
- Mynediad at gyfleusterau i sychu dillad (e.e. lein ddillad y tu allan neu rac sychu dillad dan do)
- Blanced dân a larymau mwg (gan gynnwys larwm carbon monocsid pan fydd hynny'n addas)

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Cyrraedd y Meini Prawf (parhad)

- ✓ **Gweithio gyda'ch landlord ac awdurdod lleol i ymdrin ag unrhyw gyfnodau foid yn y brydles.** Gall eich grŵp sicrhau cartref sawl mis cyn i deulu gyrraedd. Efallai y bydd angen i chi drafod y cyfnod rhentu a/neu sicrhau cyllid ychwanegol.
- ✓ **Sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel yn strwythurol,** gan gynnwys cyflenwadau trydan a/neu nwy ac awyru digonol.
- ✓ **Sicrhau eich bod wedi ymgysylltu** â'r awdurdod lleol a/neu'r heddlu ar addasrwydd lleoliad yr eiddo o ran cydlyniad cymunedol

Ystyriaethau Ychwanegol:

- **A oes lle i deulu mwy?** Er y bydd cartref o unrhyw faint yn cael ei ystyried, **bydd tai gyda 2+ ystafell wely yn cael eu cyfateb yn gyflymach â theulu wedi adsefydlu.** Cadwch mewn cof bod raid i lefelau daliadaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd awdurdod lleol.
- **A yw'r tŷ yn hygyrch i rai sy'n cael anhawster symud? Os na,** a ellid addasu'r tŷ petai angen i'w ddefnyddio gan unigolyn anabl (er enghraifft, ramp/mynediad cadair olwyn, ystafell wely i lawr grisiau ac ystafell ymolchi neu lifft ar y grisiau)?
- **A yw'r llety o fewn cyrraedd hawdd i adnoddau cymunedol?** Gall y teulu fod yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus ar gyfer rhai agweddau ar eu bywyd bob dydd.

"Yn Taunton …fe wnaethom ddefnyddio'r rhwydwaith landlordiaid preifat. Fe wnaethom ddefnyddio ein rhwydwaith i chwilio am eiddo a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ffoaduriaid. Yn y diwedd cynigiwyd 3 eiddo i ni. Bydd arnoch angen landlord hael iawn - o ran arian ac amynedd. Rhaid i'r llety gael ei sicrhau yn gynnar iawn ac yna mae popeth arall yn dibynnu arno. Fe fyddem wedi ei chael yn anodd iawn petaem wedi mynd am eiddo masnachol. Rhaid i chi ddod o hyd i landlord sy'n dymuno gosod i ffoaduriaid ac felly sy'n barod i aros."

CHARIS ar Ddod o Hyd i Lety trwy Landlordiaid Preifat

Adnoddau

- Mae peiriant chwilio penodol i god post ar gael ar gyfer Cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn: https://lha-direct.voa.gov.uk/search.aspx.
- Mae gwybodaeth am Fudd-dal Tai ar gael yn: https://www.gov.uk/housing-benefit/what-youll-get
- Mae gwybodaeth am Gredyd Cynhwysol ar gael yn: https://www.gov.uk/universal-credit

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol: *ESOL a Chyfieithwyr*

Nod: Helpu teulu sydd wedi ei adsefydlu i ddysgu Saesneg

Er mwyn gallu cyfathrebu gydag aelodau o'r teulu mewn modd y byddant yn ei ddeall efallai y bydd angen cyfieithwyr. Ond, mae dysgu Saesneg yn rhan allweddol o gynnwys teulu sydd wedi adsefydlu yn eich cymuned. Mae'r Saesneg yn cynnig mynediad at addysg, cyflogaeth a chysylltiadau yn y gymuned. Rhaid i'ch grŵp drefnu i gael hyfforddiant Saesneg i'r oedolion cyn gynted â phosibl a chyn pen mis ar ôl cyrraedd.

Er mwyn bodloni'r meini prawf Saesneg, bydd angen i'ch grŵp ddarparu:

- ❑ Cyfieithwyr ar gael am 12 mis yn ôl y gofyn
- ❑ Mynediad at diwtoriaid ESOL cymwys / colegau i ddarparu hyfforddiant Saesneg yn gyson
- ❑ Cyfleoedd i ategu at yr hyfforddiant ffurfiol gyda sgyrsiau Saesneg
- ❑ Cyfleoedd i gael cymwysterau Saesneg ffurfiol

"Gofynnwyd i wirfoddolwyr gynnig eu hunain – mae gennym dri athro ESOL wedi eu hyfforddi'n llawn yn ein rhwydwaith."

CHARIS

Cyrraedd y Meini Prawf

✓ **Darparu gwasanaethau cyfieithu yn ôl y gofyn am 12 mis ar ôl iddynt gyrraedd.** Yn ystod yr wythnos gyntaf mae'n debyg y bydd arnoch angen cyfieithwyr wrth law trwy'r amser. Ystyriwch:

- **Ddod o hyd i gyfieithwyr gwirfoddol.** Fe all mosgiau a grwpiau lleol adnabod aelodau o'ch cymuned sy'n barod i weithredu fel cyfieithwyr Arabeg.
- **Defnyddio cyfieithwyr sydd ar gael.** Mae gan wasanaethau fel Canolfannau Gwaith a'r GIG gyfieithwyr ond efallai y byddant angen rhybudd ymlaen llaw cyn rhoi apwyntiadau.
- **Talu am gyfieithwyr proffesiynol.**

✓ **Rhoi cyfle i ddefnyddio Saesneg llai ffurfiol wrth sgwrsio** i wneud dysgu iaith yn fwy personol a chyflymu eu cynnydd. Ystyriwch:

- Greu rota o wirfoddolwyr sy'n gallu rhoi ymarfer anffurfiol
- Dod o hyd i diwtor ESOL lleol i ymweld â'r teulu yn wirfoddol neu gyda thâl,
- Dilyn cymhwyster mewn dysgu Saesneg i ategu at ddysgu eich teulu.

✓ **Cefnogi cynnydd ESOL a chael cymhwyster yn y Saesneg.**
Pan fydd yn bosibl, rhowch gyfle i unigolion gael cymhwyster Saesneg ar y lefel addas. Bydd hyn yn cefnogi mynediad at waith ac addysg.

✓ **Darparu hyfforddiant Saesneg ffurfiol gan athro ESOL gyda chymwysterau addas neu goleg am leiafswm o 10 awr yr wythnos am y deuddeng wythnos cyntaf, ac yna lleiafswm o 5 awr yr wythnos am y naw mis sy'n weddill.** Ystyriwch:

- **Lefelau gallu:** Bydd angen i chi ddarparu 10 awr i bob oedolyn yr wythnos, felly os oes gan oedolion allu gwahanol bydd hyn yn 20 awr yr wythnos.
- **Argaeledd:** Mae dosbarthiadau ESOL ar gael mewn colegau lleol. Ymchwiliwch i argaeledd yn lleol a chofrestru ymlaen llaw ar gyfer dosbarthiadau poblogaidd.
- **Trefnu amserlen:** Er enghraifft, ni ddylai amseroedd y dosbarthiadau wrthdaro ag amser nôl plant o'r ysgol.
- **Costau:** Mae budd-daliadau teuluoedd wedi eu hadsefydlu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddiant ESOL, ond efallai y bydd costau eraill, fel gofal plant neu gludiant.

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Adnoddau

- Gallwch weld colegau achrededig ESOL yma: http://www.esolcourses.com/esol-courses/uk-esol-course-listings.html
- Mae'r cwmni iaith ar-lein, Little Bridge, wedi ymrwymo i roi mynediad am ddim i Ffoaduriaid o Syria. At blant y mae wedi ei anelu, ond gall oedolion hefyd ei ddefnyddio. Ar gael yn: www.littlebridge.com

"Mae hyfforddiant Saesneg yn rhan fawr o'r cais Cefnogaeth Gymunedol. Aethom i lawer o golegau a chyrsiau ond mae'n anodd iawn dod o hyd i unrhyw gwrs y gallan nhw fynd iddo o'r dechrau, oherwydd eu bod yn annhebygol iawn o fod â Saesneg o gwbl ac mae'r cyrsiau i gyd yn gofyn am rywfaint o ddealltwriaeth o'r Saesneg.

Gofynnwyd i wirfoddolwyr gynnig eu hunain – mae gennym dri athro ESOL wedi eu hyfforddi'n llawn yn ein rhwydwaith. Maent am gymryd cyfrifoldeb am ddylunio'r rhaglen i'r teulu. Ar y dechrau byddwn yn gwneud hynny ar lefel un i un ac yna fe fyddwn yn llunio cwrs penodol i'r teulu - ochr yn ochr â'r awdurdod lleol. Ar ôl hynny byddwn yn ehangu ac yn cofrestru'r teulu [mewn coleg]"

CHARIS am drefnu darpariaeth ESOL

"Gall costau cyflogi cyfieithwyr fod yn sylweddol – ond rydym wedi llwyddo i gael grant at hyn"

Abergwaun am drefnu cyfieithwyr

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol: *Diogelu*

Nod: Sicrhau bod plant ac oedolion bregus yn cael eu diogelu trwy bolisi diogelu.

Mae diogelu yn golygu amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol pobl a'u galluogi i fyw heb niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Fel cefnogwr, mae gennych ddyletswydd gofal i deulu a adsefydlwyd. Bydd angen i chi ysgrifennu polisi diogelu sy'n sicrhau bod camau diogelu addas yn eu lle i amddiffyn plant ac oedolion bregus.

Er mwyn cyrraedd y meini prawf diogelu, bydd angen i'ch polisi diogelu gynnwys:

- ❑ Dynodi'r risgiau posibl i blant ac oedolion bregus
- ❑ Gweithdrefnau i wirio staff a gwirfoddolwyr
- ❑ Gweithdrefnau i hyfforddi staff a gwirfoddolwyr
- ❑ Prosesau clir o ran sut y rhoddir adroddiad am bryderon a sut y symudir y pryderon ymlaen a gwybodaeth am ble y gallant gael cyfarwyddyd pellach
- ❑ Camau diogelu ar gyfer data sensitif
- ❑ Gwybodaeth gyswllt i arweinyddion diogelu lleol gan gynnwys timau cymdogaeth ddiogelach heddlu lleol

"Yr allwedd i bolisi diogelu llwyddiannus sy'n gweithio yw gosod yr agenda ar gyfer hyn yn y sefydliad yn gynnar, cael help arbenigol, cael copïau o bolisïau diogelu da eraill i gymharu â nhw, rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant, a sefydlu proses effeithiol i fonitro a rhoi adroddiadau."

Cyrraedd y Meini Prawf

- ✓ **Dynodi risgiau posibl i blant ac oedolion bregus.**
- ✓ **Amlinellu'r gweithdrefnau i wirio staff a gwirfoddolwyr** i sicrhau addasrwydd a chymeriad y
- ✓ bobl sy'n rhoi cefnogaeth i'r teulu wedi ei adsefydlu. Er enghraifft, efallai y bydd gwiriadau cefndir troseddol neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn addas, o ystyried y byddwch yn gweithio gyda phobl fregus.
- ✓ **Amlinellwch y gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi staff a gwirfoddolwyr.** Os na fyddwch yn gallu rhoi hyfforddiant eich hun, gofynnwch i fyrddau diogelu oedolion a phlant a'ch awdurdod lleol os oes hyfforddiant y gall eich staff neu wirfoddolwyr ei ddefnyddio. Dylai'r hyfforddiant gynnwys: disgwyliadau clir wrth weithio gyda phlant ac oedolion bregus, yn arbennig wrth weithio ar eu pen eu hunain, a gallu diwylliannol er mwyn deall profiad y ffoaduriaid yn well. Bydd hyfforddiant y Swyddfa Gartref hefyd yn cynnwys rhai o'r pynciau hyn.
- ✓ **Gweithredu prosesau clir i roi adroddiad am bryderon ac ymdrin â nhw.** Dylai hyn gynnwys llwybrau clir i staff a gwirfoddolwyr roi adroddiad am bryderon a'u rheoli. Dylai hefyd gynnwys llwybrau clir i deulu wedi adsefydlu roi adroddiad am bryderon am y gefnogaeth y maent yn ei chael.
- ✓ **Amlinellu arferion i ddiogelu data personol.**
- ✓ **Dynodi partneriaid perthnasol a sut y byddant yn cael gwybod am unrhyw bryderon ar ôl i'r teulu gyrraedd.** Mae hyn yn cynnwys heddlu lleol, arweinyddion diogelu oedolion a phlant yn yr awdurdod lleol, a'u manylion cyswllt.
- ✓ **Cadwch eich cynllun diogelu yn glir a syml**

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

"Mae gan CHARIS nifer o unigolion ar ei fwrdd ymddiriedolwyr a'u tîm rheoli sydd wedi bod yn swyddogion ac arweinwyr diogelu mewn gwahanol sefydliadau lleol, gan gynnwys ysgolion ac eglwysi. Ffurfiodd yr unigolion yma grŵp bach a ddatblygodd y polisi, fframwaith a hyfforddiant diogelu ar gyfer CHARIS. Yn ychwanegol, ceisiodd CHARIS fewnbwn gan yr awdurdod lleol ac fe wnaethant lwyddo i gynorthwyo a chynghori ar agweddau o'r polisi a rhannu rhannau o'u polisi eu hunain. Galluogodd hyn CHARIS i dynnu ar yr arferion diogelu gorau oedd ar gael.

Yn gynnar iawn penododd CHARIS ei swyddog diogelu a'i ddirprwy a gwneud diogelu yn flaenoriaeth uchel yn drefniadol. Dilynodd holl wirfoddolwyr, Ymddiriedolwyr a rheolwyr CHARIS yr un hyfforddiant yn gynnar yn y broses. Gofynnwyd i'r awdurdod lleol gynnal yr hyfforddiant cychwynnol, a gwnaethant hynny yn dda iawn, ac yna adeiladodd CHARIS ar hyn a datblygu modylau hyfforddi pellach.

CHARIS ar Ddiogelu

Adnoddau

- Gellir gweld cyfarwyddyd yr NSPCC ar ysgrifennu polisi diogelu i blant yma: https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/safeguarding/writing-a-safeguarding-policy;
- Mae'r Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) yn cynnig cwrs diogelu oedolion ar-lein am ddim yn ogystal ag adnoddau diogelu eraill: http://www.scie.org.uk/adults/safeguarding/
- Efallai bod gan eich awdurdod lleol adnoddau ar-lein ar gyfer ysgrifennu polisi diogelu. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Gwlad yr Haf wedi llunio rhai dogfennau cyfeirio sydd ar gael yn: http://www.somerset.gov.uk/adult-social-care/safeguarding/safeguarding-information-for-providers/
- Tynnwch ar unrhyw arbenigedd sy'n bodoli mewn sefydliadau i gymunedau sydd wedi mewnfudo, cefnogwyr cymunedol eraill, a sefydliadau sydd â phrofiad o adsefydlu ffoaduriaid.
- Gweler gwefan GOV.UK am ragor o wybodaeth am gymhwyster ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check

Archived

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol: *Cynllun Adsefydlu*

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Nod: Datblygu cynllun clir o ran sut i fynd ati i adsefydlu teulu

Mae cynllun adsefydlu yn gynllun gweithredu manwl o ran sut y bydd eich sefydliad a'i bartneriaid yn cyflawni gwasanaethau adsefydlu i deulu. Mae'n ymdrin â'r pwy, sut, pryd, a ble o ran cefnogaeth i baratoi eich grŵp orau i ddarparu ar gyfer anghenion teulu wrth iddynt geisio integreiddio.

Er mwyn bodloni meini prawf y cynllun adsefydlu, bydd angen i'ch cynllun fod:

- ❑ Yn Fanwl
- ❑ Â thystiolaeth i'w gefnogi
- ❑ Yn canolbwyntio ar weithredu
- ❑ Â chynlluniau wrth gefn i'w gefnogi
- ❑ Yn gynhwysfawr, gan ymdrin â'r rhestr lawn o ofynion i adsefydlu ac integreiddio

"fe all ymddangos yn frawychus, ond mae'n hollol bosibl ei wneud."

CHARIS

Cyrraedd y Meini Prawf

✓ **Rhowch gymaint o fanylion ag sy'n bosibl.**
Wrth ddatblygu eich cynllun adsefydlu, un arfer defnyddiol yw cychwyn gydag eiddo o faint penodol a lleoliad penodol er mwyn rhoi'r manylion angenrheidiol.

✓ **Rhowch dystiolaeth am y gallu i gyflawni gwasanaethau allweddol, pan fydd angen hynny.**
Ystyriwch y math o arbenigedd sy'n angenrheidiol i fodloni'r gofynion ar gyfer adsefydlu, ac esbonio ble byddech yn dod o hyd i'r arbenigedd, boed gan eich sefydliad neu gan eich partneriaid. Gall y dystiolaeth o sgiliau angenrheidiol gynnwys:

- Unigolion â phrofiad ariannol i reoli'r cyllidebau
- Tiwtoriaid Saesneg cymwys
- Gwirfoddolwyr i weithredu fel cyfieithwyr
- Gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi ymddeol neu yn dal mewn gwaith
- Arbenigwyr cyflogaeth
- Cysylltiadau yn yr awdurdod lleol ar gyfer cysylltu â gwasanaethau lleol (e.e. derbyn i ysgolion, ESOL)
- Sefydliadau gwirfoddol sy'n arbenigo mewn cefnogaeth i integreiddio ffoaduriaid

✓ **Rhowch bwyslais ar weithredu: canolbwyntiwch ar "sut" yn hytrach na'r "beth".**
Er enghraifft, wrth drafod llety, canolbwyntiwch ar ateb cwestiynau fel, "Sut fyddwch chi yn cofrestru teulu gyda'r cwmni cyfleustodau? Sut fyddwch chi'n gwneud yn siŵr bod taliadau wedi eu trefnu? Sut y byddwch chi'n cynefino teulu mewn ffordd y byddant yn ei deall?"

✓ **Ymdriniwch â'r holl ofynion ar gyfer adsefydlu ac integreiddio. Mae hyn yn cynnwys:**

- Llety
- Gwasanaethau cyfieithu
- Hyfforddiant a chymwysterau ESOL
- Mynediad at wasanaethau meddygol addas
- Mynediad at wasanaethau digidol
- Cofrestru mewn ysgol
- Asesiadau budd-daliadau
- Mynediad at wasanaethau cyflogaeth
- Cynlluniau at y diwrnod pan fyddant yn cyrraedd
- Cadw cofnodion, monitro a gwerthuso, a phreifatrwydd
- Cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol yn yr Awdurdod Lleol a'r heddlu

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

"Un o fanteision mynd trwy'r manylion yn ofalus yw ei fod yn eich gorfodi i drafod popeth y bydd arnoch ei angen pan fydd y teulu yn cyrraedd. Daeth yn amlwg bod raid i ni ychwanegu pobl â sgiliau gwahanol at ein rhwydwaith o wirfoddolwyr. Nid oeddem wedi sylweddol pa mor bwysig oedd hi i gael rhywun oedd yn deall sut mae'r system fudd-daliadau yn gweithio. Roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i rywun fydd yn gallu eistedd i lawr gyda'r teulu pan fyddant yn cyrraedd.

Yn gyffredinol fe gymrodd hi 6 mis i feddwl trwy gynllun adsefydlu - ond wrth i mi edrych ar ein dogfen yn awr mae ynddi lawer iawn o fanylion mewn cymhariaeth â phan wnaethom ni ddechrau. Mae'r cyfan yn bethau y gallwn ni eu gwneud ond mae'n rhaid i chi fod yn drefnus wrth sicrhau bod pob maes yn cael ei gynnwys. Yn sicr mae'n werth defnyddio'r cynllun adsefydlu a meddwl sut y byddwch yn cyflawni'r holl adrannau gwahanol. I rywun sydd heb arfer ymdrin â gwaith papur ffurfiol gall edrych yn frawychus, ond mae'r cyfan yn bethau y gellir eu gwneud. Rwy'n gobeithio y bydd ein rhaglen gefnogi yn llawer cryfach o ganlyniad i'r amser yr ydym wedi ei dreulio yn ei gwneud.

Fe wnaethom holi'r grwpiau oedd ar y blaen i ni [yn y broses ymgeisio] am gyngor ar rai meysydd a oedd o gymorth mawr. Pan fyddwch chi'n edrych ar y cynllun adsefydlu ar ôl iddo gael ei orffen mae'n benodol iawn i'r teulu. Fedrwch chi ddim codi cynllun adsefydlu a'i gopïo, ond mae cael mynediad at gefnogwyr cymunedol eraill yn ddefnyddiol iawn.

Un o fanteision gwneud hyn yw ei fod yn dwyn pobl at ei gilydd i weithio ar ddiben cyffredin. O'n 10 gwirfoddolwr gwahanol, mae 8 o eglwysi gwahanol yn cael eu cynrychioli."

CHARIS ar Gynllunio Adsefydlu

Adnoddau

Mae templed o'r cynllun adsefydlu a'r cwestiynau i'ch arwain ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-full-community-sponsorship

Archived

Canllaw Cefnogaeth Gymunedol:

Caniatâd Awdurdod Lleol

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Nod: Gweithiwch gyda'ch Awdurdod Lleol a chael eu caniatâd

Mae eich awdurdod lleol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi a **rhaid iddynt roi caniatâd ysgrifenedig i'ch sefydliad gefnogi teulu a chadarnhau bod yr eiddo yr ydych wedi ei ddynodi yn addas.** Nid yn unig mae eich awdurdod lleol yn borth i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn eich ardal, maent hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am y teulu wedi adsefydlu os na fyddwch chi fel cefnogwr yn gallu cyflawni eich rôl am ba bynnag reswm.

Er mwyn bodloni meini prawf yr awdurdod lleol, bydd angen i'ch grŵp:

- ❑ Gyflwyno dadl dros eich sefydliad, eich cymuned, a chefnogi
- ❑ Ymdrin ag unrhyw bryderon all fod gan eich awdurdod lleol
- ❑ Ystyried unrhyw awgrymiadau a wneir gan eich awdurdod lleol a diwygio eich cais yn ôl hynny
- ❑ Gael caniatâd ysgrifenedig eich awdurdod lleol

Bodloni'r gofynion

✓ **Dynodwch yr awdurdod lleol cywir a'u safbwynt ar adsefydlu.** Gallech roi galwad i'ch awdurdod lleol i weld a oes rhywun eisoes yn gyfrifol am adsefydlu ffoaduriaid neu drefnu i gyfarfod aelodau o'r cyngor a all fod yn gefnogol i'ch amcanion.

✓ **Casglwch dystiolaeth am deimladau eich cymuned am gefnogi.** Dangoswch bod aelodau o'ch cymuned yn gefnogol i'r syniad o gefnogi. Gweithiwch gyda'ch awdurdod lleol i ddynodi unrhyw densiynau cymunedol a dangos sut y byddwch yn ymdrin â nhw. Mae rhai grwpiau wedi trefnu arddangosfeydd o ffotograffau i dynnu sylw at broblemau ffoaduriaid a chodi cefnogaeth yn lleol i gefnogi.

✓ **Dangos addasrwydd eich grŵp i gefnogi.** Trafod profiad perthnasol, personél a'u rolau, a phartneriaethau a fydd yn cefnogi eich ymdrech.

✓ **Ystyriwch yr effaith ariannol ar yr awdurdod lleol.** Dangoswch eich bod wedi siarad gydag ysgolion lleol a gwasanaethau eraill (e.e.Meddyg Teulu) a bod cefnogaeth addas ar gael.

✓ **Ymchwilio i'r gwasanaethau sydd ar gael,** e.e. cyfieithwyr, dosbarthiadau ESOL, gofal meddygol arbenigol.

"Yr allwedd i'n gwaith gyda'r awdurdod lleol oedd gallu creu ymddiriedaeth...Rydym wedi ceisio llunio perthynas a cheisio deall beth sydd arnynt angen ei wybod amdanom ni...Mae gan ein hawdurdod lleol agwedd bositif sydd wedi ein helpu yn fawr."

Worthing4Refugees

✓ **Ymchwilio i argaeledd a chost tai yn yr ardal arfaethedig.** Ystyriwch sut y gall y nifer gyfyngedig o dai, y cap budd-daliadau, a lleoedd mewn ysgolion effeithio ar gynaliadwyedd y tai.

✓ **Dynodwch fanteision cefnogi i'r teulu a'ch cymuned.** Er enghraifft, gall eich grŵp cefnogi greu cysylltiadau nes rhwng mosgiau lleol a grwpiau cymunedol eraill.

✓ **Lluniwch gynllun adsefydlu lle byddwch yn dynodi rolau partneriaid ac yn gofyn am adborth eich awdurdod lleol.**

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

"Nid ydym yn arbenigwyr mewn adsefydlu ffoaduriaid ond mae gennym hanes hir o ymateb i angen dynol mewn ffyrdd ymarferol ac mae gennym gymysgedd dda o sgiliau, oedran a chefndir yn ein cynulleidfa. Dros y blynyddoedd rydym wedi cael cyswllt amrywiol gyda'n hawdurdod lleol ym Merton ond fel arweinydd newydd yr eglwys roeddwn yn llunio perthynas newydd o ran cefnogaeth gymunedol.

Cyn i ni gysylltu â Merton gyntaf roeddem yn awyddus i ddangos cynnydd sylweddol gyda'n cais i sicrhau ein bod yn barod i ymateb i gwestiynau penodol a phryderon yn ogystal â dangos ein gallu i gyflawni. Roeddem eisoes wedi canfod eiddo a gwneud gwaith da ar y cynllun adsefydlu. Roeddem yn gwybod nad oeddent yn cymryd rhan yn y Cynllun Adsefydlu Pobl Fregus o Syria, oherwydd diffyg llety yn y fwrdeistref ond roeddent yn awyddus i ganfod ffyrdd gwahanol i gefnogi ffoaduriaid.

Bu'r Swyddfa Gartref yn helpu i drefnu'r cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion y cyngor a fu yn gadarnhaol iawn ac fe wnaethom dderbyn cefnogaeth lawn. Ers hynny datblygodd perthynas waith gref. Ar ôl i ni gael manylion am y teulu a bennwyd i ni roeddem yn gallu cyfarfod ac ystyried sut y gallem weithio gyda'n gilydd i fodloni eu hanghenion penodol. Erbyn hyn mae'r teulu wedi cyrraedd ac rydym yn parhau i gadw mewn cysylltiad a rhoi'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau i'r awdurdod lleol.

Byddin yr Iachawdwriaeth ar Weithio gyda'r Awdurdod Lleol

"Fe wnaethom siarad â'n Cynghorwyr Sir yn gynnar - roedd i sicrhau bod y wybodaeth ganddynt a'u bod yn ein cefnogi yn werthfawr iawn pan wnaethom fynd at yr awdurdod lleol wedyn."

Abergwaun ar Weithio gyda'r Awdurdod Lleol

Adnoddau

Am gyfarwyddyd ychwanegol ar weithio gydag awdurdodau lleol, cysylltwch â'ch Partneriaeth Fudo Strategol Rhanbarthol. Mae'r manylion cyswllt ar gael yn Atodiad B o'r Cyfarwyddyd Cefnogaeth Gymunedol Llawn i Ddarpar Gefnogwyr, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-full-community-sponsorship

Archived

This document was archived on 24 December 2021 as it is out of date.

Am ragor o wybodaeth:

Gwefan Cefnogaeth Gymunedol y Swyddfa Gartref:
https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-full-community-sponsorship

CHURCH RESPONSE FOR REFUGEES

E-bost: http://www.forrefugees.uk/contact/
Ffôn: 0207 222 0972
Gwefan: http://www.forrefugees.uk/community-sponsorship/

Archived

SOCIAL FINANCE

Good Faith Partnership

REFUGEE ACTION

CHURCH RESPONSE FOR REFUGEES